**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Medi 11eg 2023 am 7.30 yh yn Neuadd Y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans, Wil Evans, Emlyn Jones, Gwenllian Hughes Jones, Dafydd Myrddin, Dafydd Williams a Wenda Williams

**Yn y gadair:** Y Cynghorydd RJ Williams

**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u>:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Nesta Roberts, Jaci Jones a'r Cyng Gareth Williams.

**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>:** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.

**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Orffennaf 2023</u>:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**5) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**

**i)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:** Adroddwyd fod Cyngor Gwynedd yn edrych i fewn i'r gor-yrru o fewn y cyfyngiad 40 mya yn Rhoshirwaun a'r broblem o geir yn troi i fewn i faes parcio Henfaes heb stopio.

Mae angen atgoffa ynghylch y broblem gwelediad yn Nant y Gadwen a'r cerrig sydd wedi syrthio o'r wal ger eglwys Sant Aelrhiw.

**ii)Materion yr Eglwys Newydd:** Cadarnhawyd fod y cwmni yswyriant yn fodlon talu costau y gwaith o ail doi rhan helaeth o'r eglwys yn unol ag opsiwn A yn yr adroddiad tendro. Ni fydd yr yswyriant yn talu am y gwaith angenrheidiol i'r landerydd, waliau na thu fewn yr eglwys. Mae'r clerc wedi gofyn i'r pensaer am fanylion a chostau y gwaith blaenoriaeth uchel sydd angen eu gwneud ond na fydd yn cael eu cynnwys fel rhan o'r hawliad yswyriant. Nodwyd fod gan Gyfeillion yr Eglwys Newydd arian wedi ei glustnodi ar gyfer talu am gynnal a chadw yr eglwys a dylid defnyddio yr arian yma i gwblhau gweddill y gwaith angenrheidiol. Cytunwyd mewn egwyddor y byddai y Cyngor yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol pe na bai digon o arian gan y Cyfeillion i gwblhau yr holl waith angenrheidiol.

**iii)Cae chwarae:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones ac eglurwyd fod crac wedi ei ddarganfod yn ffrâm swings y plant hŷn ac o ganlyniad mae'r tsiaeniau a'r seddau wedi eu tynnu i ffwrdd. Hefyd mae un o'r polion pêl fasged wedi syrthio ar y ddaear. Penderfynwyd gofyn i fasnachwr sgrap fynd a'r ddau bolyn pêl fasged oddi ar y safle ac y dylid gwneud y peipiau sydd yn sticio o'r ddaear yn môn y polion yn ddiogel trwy gael gwared o'r ymylon miniog fel eu bod yn lefel gyda'r ddaear.

Penderfynwyd y byddai y Cyng Gwenllian Hughes Jones yn gofyn am bris ffrâm swing a pholion pêl fasged newydd.

Ychwanegwyd fod newydd da yn dilyn cael grant gan Mantell Gwynedd' er mwyn cael 'rowndabowt' newydd - diolchodd i'r Cyng Gareth Williams am ei gymorth.

Dywedodd ei bod yn anodd trefnu cyfarfod o'r pwyllgor ar hyn o bryd gan fod diffyg diddordeb a bod angen gwaed newydd.

Dywedodd nad ydi y bin sbwriel yn cael ei wagio yn rheolaidd a'i fod yn orlawn weithiau, penderfynwyd holi y Cynghorydd Sir ynghylch pwy sydd a'r cyfrifoldeb o wagio y bin.

iv)Mynedfa y traeth: Derbyniwyd ebost gan Bryn Prichard Jones, y Swyddog Morwrol yn datgan nad oes cerrig wedi eu gosod yn y fynedfa i'r traeth o faes parcio Henfaes gan nad oedd yn teimlo fod eu hangen ond cytunodd i ail edrych ar y safle. Penderfynwyd anfon ato i'w atgoffa o'r angen am gerrig yno a phwysigrwydd y bwiau yn y bae, mae sawl un wedi torri yn rhydd yn ystod yr haf.

**vi)Swydd y clerc -** ail hysbysebu a threfniadau: Mae y Cyng Wenda Williams am holi Unllais Cymru am y camau y dylid eu cymeryd i sicrhau gwasanaeth gweinyddol i'r Cyngor. Os na fydd Unllais Cymru yn cynnig cymorth, cytunwyd y bydd angen i aelodau o'r Cyngor gymeryd cyfrifioldeb am y gwaith clercio ar ôl Medi y 30ain gan nad oes neb wedi dangos diddordeb yn y swydd. Mae hysbyseb yn Llanw Llŷn eto mis yma.

**6) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Rhaglen hyfforddiant Unllais Cymru - derbyniwyd y wybodaeth

**7) <u>Cynllunio</u>**

C23/0654/30/DT: Cais i godi estyniad deulawr cefn, estyniad unllawr ochr gyda balconi uwchben ynghyd a porth ar yr edrychiad blaen: Cae How, Rhoshirwaen - dim gwrthwynebiad

C23/0582/30/DT: Cais i addasu adeiladau allanol yn ystafelloedd ychwanegol i'r tŷ, Dwyros,

Aberdaron - dim gwrthwynebiad
C23/0577/30/LL: Cais llawn i ddymchwel tŷ preswyl presennol a chodi tŷ newydd yn ei le, Morfa Bach, Aberdaron - dim gwrthwynebiad

**8)Cyfraniadau Ariannol:**

i)Mynwentydd yr ardal: Yn unol â phwerau Deddf Llywodraeth Leol 2011 cytunwyd i roi £200 yr un i bob un o'r pum mynwent sef St Aelrhiw, St Hywyn, St Maelrhys, Bethesda a Nebo

**9)Ariannol**

i)Derbyniwyd adroddiad ariannol a chadarnhawyd fod y gwariant o fewn y gyllideb a benwyd. Nodwyd fod swm sylweddol o arian wrth gefn a bod yr arian i'w ddefnyddio ar gyfer adnoddau cymunedol megis yr Eglwys Newydd a'r cae chwarae. Gan fod cryn wariant yn angenrheidiol ar yr eglwys ac hefyd ar adnoddau megis ffrâm y swing a'r polion pêl fasged yn y cae chwarae cytunwyd y dylid gwario peth o'r arian i'r dibenion yma os bydd angen.

**Taliadau**

Iwan Hughes: £520 (Cyflog Gorffennaf ac Awst)
HMRC (Paye): £130 (paye Gorffennaf ac Awst)
Nesta Roberts: £25.12(CCTV trwy S/O Awst a Medi)
Archwiliad Mewnol: £246
Cynnal y toiledau cyhoeddus: £2,000
Llanw Llŷn: £16.20 (hysbyseb swydd clerc)
Ffioedd HSBC: £11.60 (Gorffennaf ac Awst)
William John Jones: £450 (torri gwellt y cae chwarae)

**Derbyniadau**

Cyswllt Twristiaeth Aberdaron: £1,000 (cyfraniad at gynnal y toiledau)
Cyngor Gwynedd: £7,500 (praesept)
AHF: £4,287
Llechen Llŷn: £120 (carreg fedd y diw. Ann Cutts)
Ad-daliad TAW (hyd at 31 Mawrth 2023): £843.37

**10) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i.Mae y Cyngor yn gofyn am eglurhad o pam y mae postiau wedi eu gosod ar ymyl y ffordd o bont Bodernabwy i gyfeiriad groeslon Moryn.
ii).Mae y tyfiant ar ochr y ffordd o benlôn Tŷ Rhos i Bodfforddd (yr un ochr a Bodffordd), Rhoshirwaun yn parhau i fod yn rhwystr. Hefyd mae gor-dyfiant y ddwy ochr i'r ffordd rhwng eglwys Bodferin a Siop Rhydlios.
ii).Tynnwyd sylw fod angen barbio tyfiant sydd yn dod i'r ffordd ar bont Bodernabwy.
iv)Mae biniau wedi eu gosod o flaen yr hysbysfwrdd newydd yn Aberdaron a penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd os oes posib eu symud.
v)Penderfynwyd gofyn i'r Adran Gynllunio am ddiweddariad ynghylch sefyllfa 'The Wilds' gan fod giat wedi ei gosod yno erbyn hyn.
vi)Gofynwyd am ddiweddariad parthed cynlluniau Cyngor Gwynedd ar gyfer Tŷ'r Ysgol, Deunant a safle hen ysgol Llidiardau.
vii)Penderfynwyd gofyn am ddiweddariad ar y cynllun i greu palmant o stad Bro Hywyn at Ysgol Crud y Werin.
vi)Penderfynwyd gofyn am arwyddion 'cwn ar denyn' ar lwybr yr arfordir.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor nos Lun, Hydref 9fed yn g Nghanolfan Deunant am 7.30yh**